

**Cwestiynau Cyffredin**  
**Sesiynau rhwydweithio Lefel 2 GChDDP Craidd, Lefel 2 a Lefel 3 GChDDP Ymarfer a Theori**  
**Hydref 2020**

## **L2 GChDDP Craidd**

### **1. Sut ydych chi'n cofrestru dysgwyr am y profion?**

Ar gyfer Lefel 2 GChDDP craidd, rydych chi'n dilyn y canllaw cam wrth gam i gofrestru dysgwyr. Mae hwn i'w gael ar wefan DGIC

<https://www.dysguiechydagofal.cymru/cymwysterau/level-2-childrens-care-play-learning-and-development-core/>

'Canllaw cofrestru dysgwyr i'w hardystio'.

### **2. Ydyn ni'n gallu sefyll y Cwestiynau Dewis Lluosog ar-lein o hyd?**

Gallwch, mae Cwestiynau dewis lluosog fel asesiadau ar alw ar gael fel fersiynau ar-sgrin ac ar bapur i ddysgwyr ar y rhaglen.

### **3. Gofynnodd ein SSAA i ni gadw cofnod di-dor i nodi ble yr oeddem wedi 'rhoi credyd am unrhyw ymatebion dilys eraill'. Ydy hi'n dderbyniol i ni barhau i wneud hyn gan fod y blwch adborth ar y dudalen flaen yn fach iawn?**

Mae City & Guilds a CBAC yn annog aseswyr i gyfeirio at unrhyw ymatebion eraill ar flaen y pecyn asesu mewnol. Dylech ddefnyddio dalennau ychwanegol os nad oes digon o le ar gael.

### **4. Pa astudiaeth achos mae dysgwyr ag eithriad yn ei sefyll?**

Ar gyfer y cymhwyster CBAC Lefel 2 GChDDP Craidd, gall y dysgwr sefyll **UNRHYW** astudiaeth achos fel trefn liniaru. Ond, mae angen i'r ganolfan gadarnhau bod hyd a lled y cymhwyster wedi'i gyflwyno'n llawn, er bod y gofynion asesu wedi'u lleihau.

### **5. A oes rhaid i ni uwchlwytho asesiadau 5 diwrnod cyn 16 Tachwedd, neu a allwn ni wneud hynny ar 16 Tachwedd?**

Terfyn amser i'r canolfannau gofrestru dysgwyr gyda CBAC yw 16 Tachwedd 2020. Mae angen uwchlwytho tystiolaeth i IAMIS erbyn 18 Rhagfyr 2020. Terfynau amser yw'r rhain ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys am y canllawiau lliniaru yn unig.

Cyhoeddir y gyfres nesaf o derfynau amser cofrestru yn fuan, i ddechrau yn y flwyddyn newydd.

### **6. Allwn ni gael mynediad at asesiadau enghreifftiol i baratoi dysgwyr i'w hasesu?**

Mae deunyddiau asesu enghreifftiol i'w cael ar wefan DIGC ar gyfer asesiadau mewnol ac allanol. <https://www.dysguiechydagofal.cymru/cymwysterau/level-2-childrens-care-play-learning-and-development-core/>

Os yw'r dysgwr yn dewis sefyll y Cwestiynau Dewis Lluosog ar-sgrin, mae un fersiwn ymarfer o'r rhain ar gael hefyd.

## 7. Beth yw'r amgylchiadau eithriadol?

### Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd

#### Llwybr UNIGOL

- cwblhau unrhyw **un** asesiad mewnol yn llwyddiannus, a'r prawf cwestiynau dewis lluosog
- NEU dan amgylchiadau eithriadol yn unig, cwblhau unrhyw **ddau** asesiad mewnol yn llwyddiannus

#### Amgylchiadau Eithriadol

Mae amgylchiadau eithriadol yn berthnasol i sefyllfaoedd sy'n atal dysgwyr rhag cwblhau asesiadau oherwydd amhariad yn deillio o gyfyngiadau Covid-19 cenedlaethol a/neu lleol yn UNIG, er enghraifft:

1. Dydy'r dysgwyr ddim yn gallu cael mynediad at safle'r darparwyr neu'r cyflogwyr
2. Dydy'r darparwr ddim yn gallu darparu amgylchedd addas at ddibenion asesu, yn ôl y manylion sy'n cael eu rhoi ym manyleb y cymhwyster
3. Rhaid i'r ganolfan ystyried gohirio'r asesiad cyn gwneud cais i ddefnyddio holi ac ateb ar lafar fel dull asesu

## 8. A oes gan yr aseswr a'r SSAM 3 cwymplen hefyd? Dim ond 1 gwymplen oedd y tro diwethaf felly ni wnaeth hyn gyfateb bob tro os cafodd pob astudiaeth achos ei marcio gan wahanol bobl.

Defnyddiwch yr enw Aseswr, dyddiad Aseswr, enw SSAM a dyddiad SAM diweddaraf wrth fewnbynnu eich dysgwyr ar IAMIS CBAC wrth uwchlwytho eich tystiolaeth.

## 9. Allwn ni gofrestru dysgwyr am drefniadau lliniaru yn awr?

Terfyn amser i'r canolfannau gofrestru dysgwyr gyda CBAC yw 16 Tachwedd 2020. Mae angen uwchlwytho tystiolaeth i IAMIS erbyn 18 Rhagfyr 2020. Terfynau amser yw'r rhain ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys am y trefniadau lliniaru yn unig.

Cyhoeddir y gyfres nesaf o derfynau amser cofrestru yn fuan, i ddechrau yn y flwyddyn newydd.

## 10. Allwch chi gadarnhau os gwelwch yn dda gyda pha gorff dyfarnu y mae angen ymrestru L2 Craidd, L3 Ymarfer a Theori?

Mae cymwysterau CBAC yn cwmpasu:

- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd
- Lefel 2 GChDDP: Ymarfer a Theori
- Lefel 3 GChDDP: Ymarfer a Theori

Noder, nid yw CBAC yn ymrestru dysgwyr. Mae CBAC yn cofrestru dysgwyr ar ôl iddynt gwblhau eu cymhwyster.

11. Mae ein AALI wedi dweud yn awr na all unrhyw ddysgwyr fynd ar leoliad tan ar ôl y Nadolig ac yna bydd hyn yn cael ei adolygu. A fydd trefniadau lliniaru i wneud iawn am y mater hwn?

Mae City & Guilds a CBAC yn parhau i fonitro'r sefyllfa a bydd y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhannu pan gymeradwyir unrhyw ganllawiau newydd.

Gofynnwyd i'r canolfannau roi trosolwg o ddysgwyr ar leoliad ar gyfer carfan 2019/20. Rydym wedi derbyn y data ac yn adolygu ac yn dadansoddi'r set ddata hon ar hyn o bryd.

12. Allwn ni ofyn am ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg - wrth wneud y Cwestiynau Dewis Lluosog ydyn nhw'n cael ateb yn Saesneg ond cael copi Cymraeg o'r cwestiynau.

Ydyn, mae'r llwyfan Cwestiynau Dewis Lluosog yn golygu bod modd i ddysgwyr fynd nôl ac ymlaen rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r pecynnau asesu mewnol ar gael yn Gymraeg a Saesneg hefyd i'w lawrlwytho gan y canolfannau.

## Lefel 2 GChDDP Ymarfer a Theori

1. A oes angen i fyfyrwyr 2019/20 gwblhau'n llawn y 280 o oriau ar leoliad?

Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol o hyd i gwblhau'r holl leoliadau. Ond, mae City & Guilds a CBAC yn dadansoddi'r data a gyflwynwyd gan golegau AB ar ddechrau Hydref 2020 ar hyn o bryd a bydd diweddariad yn cael ei roi i'r sector yn fuan.

2. A feddyliwyd o gwbl am efelychu gweithgareddau os nad yw'n bosibl cynnal lleoliad eleni, neu pe byddai'r amser sydd ar gael ar ddiwedd y flwyddyn yn un byr.

Ni chaniateir efelychu ar gyfer unrhyw ran o'r cymhwyster Lefel 2 GChDDP: Ymarfer a Theori.

Mae dewis gan ganolfannau i ddefnyddio tystiolaeth Tyst Arbenigol a chefnogi hynny â thrafodaeth broffesiynol i ffurfio rhan o'r penderfyniadau cymhwysedd yn lle arsylwadau uniongyrchol gan aseswyr.

## Lefel 3 GChDDP Ymarfer a Theori

1. Rydw i'n addysgu testun 3 ar hyn o bryd ac am holi a fydd unrhyw adnoddau newydd penodol yn cael eu rhyddhau?

Ar hyn o bryd, dim ond enghreifftiau o gynlluniau gwersi testun 1 sydd ar gael i'r athrawon fel dogfen addysgu. Ond, wrth i ni weithio drwy'r cymhwyster, CBAC Lefel 3 GChDDP: Ymarfer a Theori bydd yr Uwch Arholwr yn cynhyrchu mwy o enghreifftiau ac yn diweddarau'r canllawiau addysgu.

2. A oes ffug asesiadau ar gael o gwbl ar gyfer yr Arholiad?

Mae deunyddiau asesu enghreifftiol ar gael ar gyfer Uned 330 ac Uned 331. Mae'r rhain i'w cael yn awr ar y wefan DIGC <https://www.dysguiechydagofal.cymru/cymwysterau/level-3-children-s-care-play-learning-and-development-practice-and-theory/>

3. A fydd y cwrs Lefel 3 GChDDP: Ymarfer a Theori yn cael ei addysgu dros 2 flynedd i bob dysgwr? Os felly, yn nhermau'r lleoliad, oes gennym ddwy flynedd i gyflawi'r pedwar arsylwad a gofynion eraill y lleoliad?

Bwriedir y cymhwyster Lefel 3 GChDDP: Ymarfer a Theori i fod yn rhaglen ddwy flynedd. Bwriedir Uned 331 i'w chwblhau ar ddiwedd y cyfnod lleoliad gwaith. Mae'n bosibl cofrestru am asesiad Uned 330 ac Uned 331 o 2021 ymlaen. Dylid cynnal yr elfen ymarfer pan fydd parodrwydd i asesu wedi'i gadarnhau a'r dysgwr yn barod i gychwyn ar y tasgau strwythuredig.